

“ Mae data a ryddhawyd yn ddiweddar gan Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) yn tynnu sylw at dueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn y farchnad cig eidion. Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn archwilio'r tueddiadau hynny yn fanwl ac yn archwilio eu goblygiadau ar gyfer cyflenwad domestig yn y dyfodol.

Glesni Phillips – Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes



TROSOLWG POBLOGAETH GWARTHEG PRYDAIN

Ar 1 Gorffennaf 2025, roedd cyfanswm poblogaeth gwartheg a lloi ym Mhrydain Fawr (GB) yn 7.7 miliwn o bennau. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad blwyddyn ar flwyddyn o 1% (neu bron i 83,800 pen), a gostyngiad pellach o 3% o'i gymharu â Gorffennaf 2023. Gostyngodd nifer y gwartheg cig eidion 0.8% i 5.1 miliwn pen, tra bod y fuches laeth wedi lleihau o 1.5% i 2.7 miliwn pen, gan barhau â thuedd am i lawr a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.


Roedd poblogaeth y gwartheg dros 30 mis oed yn sefyll ar 2.7 miliwn pen, gostyngiad o 1.5% ers y flwyddyn flaenorol a 3% yn is nag yn 2023. O fewn y categori hwn, gostyngodd benywod sy'n magu dros 30 mis - dangosydd o faint y fuches fridio - o 1.5% i 2.6 miliwn pen. Sbardunwyd y gostyngiad hwn gan ostyngiad o 3% yn y fuches fridio cig eidion ar 1.2 miliwn pen, tra bod y fuches fridio laeth wedi aros yn sefydlog ar 1.4 miliwn pen.

EDRYCH YMLAEN

Mae archwilio categorïau gwartheg a bracedi oedran yn rhoi cipolwg ar gyflenwad posibl y farchnad yn y tymor byr a'r tymor hwy. Gostyngodd poblogaeth gwartheg o dan 30 mis ym Mhrydain fel ag yr oedd ar 1 Gorffennaf 2025 i ychydig o dan 5.0 miliwn pen - gostyngiad o 0.9% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae data ar gyfer gwartheg cig eidion a gwrywod laeth rhwng **12 a 30 mis oed** yn rhoi syniad o'r cyflenwad posibl o wartheg dethol ar y farchnad yn y **tymor byr**. Roedd 3% yn llai o anifeiliaid ar lawr gwlad o'i gymharu â Gorffennaf 2024 a 2023. Mae llai o wartheg dethol parod yn awgrymu cyflenwad tynnach yn y tymor byr o'i gymharu â lefelau hanesyddol, er y gellir defnyddio rhai o'r gwartheg hyn fel anifeiliaid magu cyfnewid.


Anifeiliaid eidion a gwrywiaid laeth 0-12 mis oed ym Mhrydain Fawr (1 Gorffennaf 2025)



Ffynhonnell: BMS

Ar gyfer y **tymor hwy**, cododd poblogaeth gwartheg eidion a gwrywod laeth **0-12 mis oed** 2% yn uwch na Gorffennaf 2024 ar 1.9 miliwn pen – fodd bynnag, mae'r lefel hon 1% yn llai na 2023, a 3% yn llai na 2022. O fewn y categori hwn, cofnododd nifer yr anifeiliaid cig eidion gynnydd sylweddol – gyda niferoedd benywaidd i fyny 2% ar y flwyddyn, a nifer gwrywaidd i fyny 3%. Mae hyn yn awgrymu y gallai cyflenwad gwartheg dethol fod yn fwy niferus o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach, fodd bynnag, bydd y niferoedd yn parhau i fod yn hanesyddol dynn ymhellach i lawr y llinell.

Gwartheg o dan
30 mis oed ym Mhrydain =



TUEDDIADAU CYNHYRCHU CIG EIDION Y DU

Mae data gan Defra rhwng Ionawr a Gorffennaf 2025 yn awgrymu bod trwybwn gwartheg dethol wedi gostwng o 4% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024, gan gyrraedd ychydig yn llai na 1.8 miliwn pen. O ganlyniad, mae cyfanswm cynhyrchiant cig eidion dros y cyfnod hwnnw i lawr 5% o'i gymharu â 2024, a 2% yn llai na 2023. Er gwaethaf cyflenwad tynnach, mae prisiau pwysau marw ar y farchnad wedi bod yn gryf ac yn tueddu i fod yn uwch na lefelau hanesyddol. Ar ddechrau mis Awst, roedd pris pwysau marw bustach

yng Nghymru a Lloegr ar gyfartaledd bron i £6.40/kg – tua 30% yn uwch na'r lefelau blwyddyn gynt, a 49% yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd tymor hwy. Mae cyfartaledd gwartheg dethol wedi bod ar gynnydd ers diwedd 2024, gyda'r prisiau cryfach bellach yn hidlo i lefel defnyddwyr. Yn ôl y data diweddaraf, cynyddodd pris cyfartalog cig eidion mewn siopau ym Mhrydain o bron 19% ar y flwyddyn, sef £11.66/kg (Worldpanel gan Numerator UK, 12 wythnos yn dod i ben 13 Gorffennaf 2025). Ynghyd â phwysau costau byw parhaus, mae defnyddwyr yn wynebu pŵer gwario tynnach.

POBLOGAETH GWARTHEG YNG NGHYMRU:

Mae'r tueddiadau o fewn y boblogaeth wartheg yng Nghymru yn adlewyrchu'r rhai a welir ar draws Prydain i raddau helaeth. Ar 1 Gorffennaf 2025, roedd gan Gymru 1.1 miliwn o wartheg, yn cynrychioli 14% o fuches Prydain Fawr ac yn nodi gostyngiad o 2.5% blwyddyn ar flwyddyn. Roedd y cyflenwad posibl o anifeiliaid dethol yn y tymor byr (fel y categorïdd uchod) i lawr 2% ar y flwyddyn, tra bod y cyflenwad posibl yn y tymor hwy i fyny 4% - ond yn debyg i fis Gorffennaf 2023.

GWARTHEG

Prisiau – wythnos yn dod i ben 16 Awst

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **639.8c/kg**. Roedd hyn:

- + 0.3c ar yr wythnos flaenorol,
- 148.6c uwchlaw lefelau flwyddyn ynghynt.

Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer categorïau gwartheg eraill fel a ganlyn -

- Heffrod: 635.6c/kg (+ 0.8c ar yr wythnos),
- Teirw ifanc: 634.5c/kg (+5.0c ar yr wythnos), a
- Buchod difa: 505.8c/kg (+ 1.7c ar yr wythnos).

Trwybwn – Gorffennaf 2025

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 211,700 pen – gostyngiad o 8% ar y flwyddyn.
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 161,900 pen - i lawr 8% ar y flwyddyn.

➤ bustych -9%, heffrod -7%, a theirw ifanc -9%

- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 348.1kg (+1.7kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 45,300 pen - i lawr 8% ar y flwyddyn.

DEFAID

Prisiau – wythnos yn dod i ben 16 Awst

Roedd y pris cig oen pwysau marw* ym Mhrydain ar gyfartaledd yn **753.5c/kg**. Roedd hyn:

- 1.2c ar yr wythnos flaenorol,
- + 88.7c o'i gymharu â lefelau flwyddyn ynghynt,
- 198.5c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2020-24: 555.0c/kg).

Fe wnaeth y niferoedd oedd yn dod ar y farchnad gyrraedd 33,300 pen. Roedd hyn:

- +1.0% ar yr wythnos flaenorol
- 13% o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach

*Noder: Dangosir ŵyn hen dymor o 1 Ionawr i'r trydydd dydd Llun ym mis Mai ac ŵyn tymor newydd wedi hynny.

Trwybwn – Gorffennaf 2025

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.1 miliwn pen – tebyg ar y flwyddyn.
- Trwybwn cig oen = 892,100 pen – cynnydd o 1% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas cig oen cyfartalog = 19.8kg (+2.3kg).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 109,900 pen – i lawr 7% ar y flwyddyn.

MOCH

Prisiau – wythnos yn dod i ben ar 16 Awst


Roedd Pris Moch Safonol yr UE (SPP)* ym Mhrydain yn sefyll ar **207.8c/kg**. Roedd hyn:

- 0.3c ar yr wythnos flaenorol,
- 2.1c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 16.4c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2020-24: 191.3c/kg).

*Nodyn: nid yw'r gyfres ddata APP bellach ar gael gan nad yw'r data bellach yn bodloni trothwyon dilysu. Nid yw'r SPP (sy'n defnyddio gwahanol ffynonellau data) yn cael ei effeithio.


Trwybwn – Gorffennaf 2025

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 876,300 pen – i lawr 3% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 859,200 pen – i lawr 3% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu cyfartalog = 87.9kg (-1.7kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 17,200 pen – i lawr 2% ar y flwyddyn.




Cynhyrchiant Cig Eidion a Chig Llo y DU Gorffennaf '25

70,800 tonnelli
-8% b-a-f



Cynhyrchiant cig defaid yn y DU Gorffennaf '25

20,700 tonnelli
+10% b-a-f



Cynhyrchiant porc y DU Gorffennaf '25

78,200 tonnelli
-5% b-a-f

